Mawrth, 2022

Annwyl riant / warcheidwad,

Bydd eich plentyn yn derbyn amserlen arholiadau allanol yr Haf yr wythnos hon sy'n rhoi manylion am ddyddiadau ac amseroedd yr arholiadau.

Mae'n bosib y bydd gan nifer fach o ddisgyblion ddau arholiad ar yr un pryd. Does dim angen poeni am hyn. Mae'n digwydd yn flynyddol a byddwn ni'n cysylltu gyda'r unigolion hynny er mwyn gwneud trefniadau penodol ar eu cyfer. Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at unrhyw arholiadau sy'n digwydd yn y bore – **9.00** fydd amser dechrau'r arholiadau hyn ac nid 9.30 fel sy'n cael ei nodi ar yr amserlenni

Hoffwn gymryd y cyfle i annog pob un o'n disgyblion sy'n sefyll arholiad yr Haf hwn, i ddechrau paratoi nawr. Mae ymchwilwyr wedi profi mai adolygu cyson dros amser yw'r ffordd orau o baratoi at arholiadau yn hytrach na cheisio adolygu popeth funud olaf. Yn TEAM pob blwyddyn, byddwn ni'n gosod ffolder 'Adolygu' a fydd yn cynnwys gwybodaeth am strategaethau adolygu effeithiol. Anogwn chi i gyfeirio'ch plentyn at yr adnodd hwn.

Cofiwch hefyd fod https://www.bbc.co.uk/bitesize yn wefan ac yn adnodd adolygu gwych, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n astudio cyrsiau TGAU.

Byddwn ni'n rhoi ffocws mawr ar les ein disgyblion yn yr wythnosau yn arwain at yr arholiadau – bydd gwybodaeth bellach am ffyrdd o edrych ar ôl lles pobl ifanc yn ystod cyfnod arholiadau yn y ffolder 'Adolygu' yn TEAMS.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am yr arholiadau, mae croeso i chi gysylltu ar unrhyw adeg.

Yn ddiffuant,

Rhian Edwards-Jones (Dirprwy dros dro)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales